# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

## CYNNWYS:


1. Crynodeb
2. Celfyddydau Ymdrochol
3. Y cyllid
4. Sut a phryd i wneud cais
5. Ffurfiau ar gelfyddyd a Thechnolegau a beth sy'n gymwys
6. Y broses ddethol


## CRYNODEB

Mae'r ddogfen yma'n amlinellu'r canllawiau ar gyfer gwneud cais i rownd 2025 o gyllid Celfyddydau Ymdrochol. Gallwch ddod o hyd i fformatau hygyrch eraill yma.

Rydyn ni'n argymell eich bod yn darllen y ddogfen yma'n llawn cyn gwneud cais, ac mae pwyntiau pwysig i'w gweld isod.

- Mae tri math o gyllid ar gael: Archwilio (£5,000); Arbrofi (£20,000); Estyn (£50,000). Eu bwriad yw cefnogi artistiaid yng nghyfnodau

gwahanol eu datblygiad creadigol gyda thechnolegau ymdrochol.

- Rydyn ni'n gwybod bod y term celfyddydau ymdrochol yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Rydyn ni'n ei ddiffinio fel 'celf sy'n defnyddio technoleg i fynd ati i gynnwys y gynulleidfa'.

- Rhaid gwneud ceisiadau drwy ein porth ymgeisio.

- **Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 14.00 BST, dydd Llun 29 Medi 2025.**

## CELFYDDYDAU YMDROCHOL

Rhaglen uchelgeisiol sy'n cael ei chynnal ar draws gwledydd Prydain dros gyfnod o dair blynedd yw Celfyddydau Ymdrochol, sy'n defnyddio dull sy'n

cael ei arwain gan artistiaid o weithio gyda thechnolegau ymdrochol. Caiff y rhaglen ei chynnal gan gonsortiwm cydweithredol sydd wedi'u gwreiddio yng nghymunedau ymchwil a chelfyddydau ymdrochol gwledydd Prydain, ac sydd wedi ymrwymo i greu newid cadarnhaol yn y sector. Mae'r rhaglen gyffrous yma'n annog artistiaid o bob cefndir a phrofiad i archwilio, arbrofi neu estyn sut maen nhw'n gweithio, neu sut hoffen nhw weithio, gyda thechnolegau ymdrochol.

Does dim rhaid i chi fod yn feistr ar dechnoleg (er y gallwch fod) er mwyn gwneud cais. Y cyfan sydd ei angen arnoch chi yw meddwl chwilfrydig ac ymarfer creadigol. Yna, drwy gymysgedd o gyllid, hyfforddiant, ymchwil a digwyddiadau, bydd rhaglen Celfyddydau Ymdrochol yn eich cefnogi i ddatblygu eich syniadau a'ch sgiliau creadigol.

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

Yn y bôn, y nod yw chwalu rhwystrau, gan wneud maes sy'n gallu bod yn eithaf caeedig yn llawer mwy hygyrch i bawb. Yn hynny o beth, rydyn ni eisiau rhoi sylw i gymaint ag y gallwn ni o wahanol leisiau, er mwyn helpu i darfu ar ffyrdd sefydledig o fodoli, gwneud, meddwl a chreu.

Darperir cyllid ar gyfer rhaglen Celfyddydau Ymdrochol drwy gywaith rhwng Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau UKRI (yr AHRC), Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Celfyddydau Lloegr, Creative Scotland a Chyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon. Darperir cyllid o Gyngor Celfyddydau Cymru, Creative Scotland a Chyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon gan y Loteri Genedlaethol.

Gallwch ddarllen mwy amdanon ni ar ein gwefan.

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

## Y CYLLID

Gyda thros £3.6 miliwn o gyllid ar gael rhwng 2024 a 2027, bydd Celfyddydau Ymdrochol yn cefnogi dros 200 o artistiaid yng ngwledydd Prydain drwy dair ffrwd ariannu:

- Archwilio (£5,000)
- Arbrofi (£20,000)
- Estyn (£50,000)

Mae pob ffrwd wedi'i chynllunio i gefnogi artistiaid ar wahanol gamau yn eu datblygiad creadigol gyda thechnolegau ymdrochol.

Gallwch ddarllen mwy am bob ffrwd ariannu isod. Os ydych chi'n ansicr pa un i wneud cais amdano, gallwch chi wneud ein cwis ar-lein.

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

Gall artistiaid cymwys gyflwyno un cais yn y rownd ariannu yma, sef ar gyfer Arbrofi, Archwilio neu Estyn. Gallwch wneud cais yn y rownd ariannu yma p’un a ydych chi wedi gwneud cais mewn rownd flaenorol ai peidio.

Dylai ymgeiswyr wneud cais am y symiau llawn sydd ar gael ym mhob ffrwd (h.y. £5,000, £20,000 neu £50,000). Does dim angen arian cyfatebol arnoch i wneud cais.

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

## Archwilio - £5,000

| | |
|---|---|
| **Cyfnod grant** | hyd at 6 mis |
| **Mae'r ffrwd yma ar gyfer:** | • artistiaid sydd heb ddim neu heb fawr ddim profiad ym maes celfyddydau ymdrochol<br>• unigolion, sefydliadau neu gasglebau creadigol bach (o 10 o bobl neu lai) |
| **Yn helpu artistiaid gyda'r canlynol:** | • archwiliad cyfnod cynnar o dechnolegau ymdrochol<br>• datblygu sgiliau a gwybodaeth celfyddydau ymdrochol sylfaenol<br>• cael profiad o weithiau celf ymdrochol<br>• cwrdd â darpar gydweithwyr a phartneriaid<br>• ehangu rhwydweithiau celfyddydau ymdrochol<br>*Dydyn ni ddim yn disgwyl i chi greu darn gorffenedig o waith gyda chyllid Archwilio, ond byddwn ni'n gofyn i chi rannu'r hyn rydych chi wedi'i ddysgu mewn adroddiad byr ar y diwedd.* |

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

| | |
|---|---|
| **Y meini prawf fydd yn cael eu defnyddio i adolygu ceisiadau.** | **Mae'r gweithgarwch arfaethedig:**<br>1. yn cynnwys cwestiwn/cwestiynau clir mae'r artist am eu harchwilio sy'n defnyddio technoleg ymdrochol mewn ffordd greadigol.<br>2. â'r potensial i gael effaith gadarnhaol ar ymarfer creadigol yr ymgeisydd.<br>3. yn glir, yn gyraeddadwy ac yn nodi adnoddau priodol wrth ystyried y gyllideb a'r amserlen; ac yn cynnwys unrhyw gyfleusterau, technoleg, partneriaid neu rolau perthnasol. |

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

## Arbrofi - £20,000

| | |
|---|---|
| **Cyfnod grant** | hyd at 9 mis |
| **Mae’r ffrwd yma ar gyfer:** | • artistiaid sydd â syniad creadigol, neu gysyniad, maen nhw am ei ddatblygu a'i brofi gyda chynulleidfaoedd bach neu grwpiau ffocws<br>• unigolion, sefydliadau neu gasglebau creadigol bach (o 10 o bobl neu lai) |
| **Yn helpu artistiaid:** | • i greu gweithiau celf arbrofol, profion o gysyniad neu brototeipiau i’w profi gyda chynulleidfaoedd bach er mwyn dysgu neu gael gwybodaeth<br>• i arbrofi gyda thechnoleg ymdrochol mewn ffordd newydd neu sy’n datblygu eu hymarfer<br>• i ymgorffori materion hygyrchedd, amrywiaeth a chynhwysiant sy'n berthnasol i'w prosiect.<br><br>*Dydyn ni ddim yn disgwyl i chi greu darn gorffenedig o waith gyda chyllid Arbrofi (er* |

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

| | |
|---|---|
| | *bod croeso i chi wneud hynny), ond bydd disgwyl i chi brofi eich prosiect gyda chynulleidfa fach, neu grŵp defnyddwyr, ac ysgrifennu adroddiad byr ar y diwedd.* |
| **Y meini prawf fydd yn cael eu defnyddio i adolygu ceisiadau.** | **Mae'r cynnig:**<br>1. yn cyfleu syniad artistig cryf a fydd yn galluogi'r ymgeisydd i arbrofi gyda thechnoleg ymdrochol.<br>2. yn amlinellu rhesymeg a chynllun clir ar gyfer profi'r gwaith gyda chynulleidfa, ac yn gallu mynegi sut fydd hyn yn cael effaith ar ddatblygiad y prosiect.<br>3. â'r potensial i gael effaith gadarnhaol ar ymarfer creadigol yr ymgeisydd.<br>4. yn cynnwys ystyriaethau hygyrchedd, amrywiaeth a/neu gynhwysiant perthnasol a phriodol wrth ddatblygu'r gwaith.<br>5. yn cynnwys cyllideb ac amserlen sy'n berthnasol, yn glir ac yn gyraeddadwy. |

| | |
|---|---|
| | 6. yn nodi adnoddau priodol, ac yn amlinellu'n glir unrhyw aelodau tîm, cydweithwyr, partneriaid, cyfleusterau a/neu dechnoleg berthnasol sydd eu hangen. |

## Estyn - £50,000

| | |
|---|---|
| **Cyfnod grant** | hyd at 12 mis |
| **Mae'r ffrwd yma ar gyfer:** | • artistiaid sydd eisiau datblygu prototeip/prawf o gysyniad o waith celf ymdrochol sy'n bodoli eisoes<br>• timau, sefydliadau a chasglebau creadigol (o 50 o bobl neu lai) |
| **Yn helpu artistiaid:** | • i ddatblygu prototeip presennol yn sylweddol<br>• i droi cysyniadau sydd wedi'u datblygu yn waith mwy terfynol gyda chymorth cynhwysfawr<br>• i wella cyrhaeddiad ac ymgysylltiad â'r gynulleidfa |

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

| | |
|---|---|
| **Cyfnod grant** | hyd at 12 mis |
| **Mae'r ffrwd yma ar gyfer:** | • artistiaid sydd eisiau datblygu prototeip/prawf o gysyniad o waith celf ymdrochol sy'n bodoli eisoes<br>• timau, sefydliadau a chasglebau creadigol (o 50 o bobl neu lai) |
| | • i ymgorffori materion hygyrchedd, amrywiaeth a chynhwysiant sy'n berthnasol i'r prosiect.<br><br>*Dydyn ni ddim yn gofyn i chi greu darn gorffenedig o waith gyda chyllid Estyn (er bod croeso i chi wneud hynny), ond bydd angen i chi wneud cynnydd sylweddol ac ysgrifennu adroddiad byr ar y diwedd.* |
| **Y meini prawf fydd yn cael eu defnyddio i adolygu ceisiadau.** | **Mae'r cynnig:**<br>1. yn cyflwyno gwaith celf ymdrochol clir a gwreiddiol, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu prototeip neu brawf o gysyniad sy'n bodoli eisoes.<br>2. yn rhannu tystiolaeth, dogfennaeth a dysgu o brototeip neu brawf o gysyniad |

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

| | |
|---|---|
| **Cyfnod grant** | hyd at 12 mis |
| **Mae'r ffrwd yma ar gyfer:** | • artistiaid sydd eisiau datblygu prototeip/prawf o gysyniad o waith celf ymdrochol sy'n bodoli eisoes<br>• timau, sefydliadau a chasglebau creadigol (o 50 o bobl neu lai) |
| | sy'n bodoli eisoes, ac yn dangos gweledigaeth a chynllun clir ar gyfer cam nesaf eu prosiect.<br>3. yn cyflwyno rhesymeg a chynllun clir ar gyfer cyrraedd cynulleidfa, naill ai o ran dyfnder ymgysylltu neu raddfa cyrhaeddiad.<br>4. yn cynnwys ystyriaethau hygyrchedd, amrywiaeth a/neu gynhwysiant perthnasol a phriodol wrth ddatblygu a/neu gyflwyno'r gwaith.<br>5. yn cynnwys cyllideb ac amserlen sy'n berthnasol, yn glir ac yn gyraeddadwy.<br>6. yn nodi adnoddau priodol, ac yn amlinellu'n glir unrhyw aelodau tîm, cydweithwyr, partneriaid, cyfleusterau |

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

| | |
|---|---|
| **Cyfnod grant** | hyd at 12 mis |
| **Mae'r ffrwd yma ar gyfer:** | • artistiaid sydd eisiau datblygu prototeip/prawf o gysyniad o waith celf ymdrochol sy'n bodoli eisoes<br>• timau, sefydliadau a chasglebau creadigol (o 50 o bobl neu lai) |
| | a/neu dechnoleg berthnasol sydd eu hangen. |

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

## Hyfforddiant a chefnogaeth

Yn ogystal â chyllid, mae pob ffrwd yn cynnwys hyfforddiant a chymorth pwrpasol.

| Ffrwd ariannu | Hyfforddiant a Chymorth a gynigir |
|---|---|
| **Archwilio** | • 3 x cyfarfod gyda Chynhyrchydd o raglen Celfyddydau Ymdrochol<br>• Rhwydwaith Cyfoedion sydd wedi'i hwyluso<br>• Digwyddiadau a chyfleoedd penodol i'r wlad |
| **Arbrofi** | • Labordai Datblygu (mae rhagor o wybodaeth ar gael isod)<br>• 3 x cyfarfod gyda Chynhyrchydd o raglen Celfyddydau Ymdrochol<br>• Rhwydwaith Cyfoedion sydd wedi'i hwyluso<br>• Digwyddiadau a chyfleoedd penodol i'r wlad |
| **Estyn** | • Mentora pwrpasol wedi'i gynllunio gan Crossover Labs<br>• 3 x cyfarfod gyda Chynhyrchydd o raglen Celfyddydau Ymdrochol<br>• Rhwydwaith Cyfoedion sydd wedi'i hwyluso<br>• Digwyddiadau a chyfleoedd penodol i'r wlad |

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

**Labordai Datblygu (Arbrofi yn unig)**
Mae'r hyfforddiant yma'n darparu cefnogaeth benodol ar gyfer prosiectau a ariennir gan Arbrofi, o dan arweiniad Crossover Labs gyda thîm o fentoriaid arbenigol yn y diwydiant.

Bydd y labordai'n canolbwyntio ar ddatblygu cysyniadau prosiect, profiad y defnyddiwr, strategaeth cynulleidfa ac elfennau ymarferol – fel cynlluniau cyllid, amserlenni a chynllunio prototeipiau.

Bydd dau opsiwn hyblyg ar gael:

- **Preswyl (Mawrth 2026)**
  Un wythnos (pum diwrnod)
- **Tracio ar-lein hamddenol (Mawrth-Ebrill 2026)**
  Deg hanner diwrnod dros gyfnod hirach mewn ymateb i'r garfan. Wedi'i ddylunio ar

gyfer artistiaid sydd â gofynion hygyrchedd a/neu swyddogaethau gofalu lle nad yw'r model preswyl o bosib yn addas ar eu cyfer.

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

## SUT A PHRYD I WNEUD CAIS?

Mae'r tair ffrwd ariannu ar agor i geisiadau tan **14:00 (BST), dydd Llun 29 Medi 2025**.

### Llinell amser rownd dau

<table>
<tr><th>Ffrwd ariannu</th><th>Dyddiad cau</th><th>Hysbysu ymgeiswyr</th><th>Contractio</th><th>Hyd prosiectau</th></tr>
<tr><td>Archwilio</td><td>29 Medi 2025</td><td>Ionawr 2026</td><td>Ionawr 2026</td><td>Chwefror - Gorffennaf 2026</td></tr>
<tr><td>Arbrofi</td><td>29 Medi 2025</td><td>Ionawr 2026</td><td>Ionawr 2026</td><td>Chwefror - Hydref 2026</td></tr>
<tr><td>Estyn</td><td colspan="4">Mae gan y ffrwd yma ddau gam i’r broses ymgeisio, er mwyn helpu i ddiogelu amser artistiaid.</td></tr>
<tr><td>Cam un mynegi diddordeb</td><td>29 Medi 2025</td><td>Rhagfyr 2025</td><td rowspan="2">Ionawr 2026</td><td rowspan="2">Chwefror 2026 - Ionawr 2027</td></tr>
<tr><td>Cam dau cyfweliad</td><td>Rhagfyr 2025</td><td>Ionawr 2026</td></tr>
</table>

### Sut i wneud cais

I wneud cais am arian, bydd angen i chi greu cyfrif ar ein porth ymgeisio. Rydyn ni'n argymell darllen y canllaw cam wrth gam yma cyn i chi ddechrau eich cais.

Gallwch gyflwyno cais ar ffurf testun, sain neu fideo, ac yn Gymraeg, yn Saesneg, neu yn Iaith Arwyddion Prydain.

Gwiriwch y canllawiau penodol yn y ffurflen gais ar gyfer pob cwestiwn i sicrhau nad yw eich atebion yn fwy na'r nifer geiriau, y terfyn amser na maint y ffeil.

Gallwch gadw'ch cais a dychwelyd ato – does dim rhaid ei orffen mewn un eisteddiad. Gwnewch yn siŵr eich bod yn llenwi'r holl adrannau gofynnol ac yn uwchlwytho'r holl

ddogfennau gofynnol cyn cyflwyno'r cais.

Os oes angen cymorth arnoch i gael mynediad at eich cais neu i'w gyflwyno, cysylltwch â ni.

## Dogfennau Ategol

Gallwch uwchlwytho dogfennau neu ddolenni i gefnogi'ch cais, ond gwnewch yn siŵr eu bod yn bodloni'r meini prawf canlynol:

- **Dolenni gwe**
  Rhannwch ddolenni at dudalennau, prosiectau, erthyglau penodol rydych chi eisiau i ni edrych arnyn nhw, yn hytrach na rhannu tudalen hafan gwefan gyffredinol neu gyfrif cyfryngau cymdeithasol cyfan.

- **Dogfennau**

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

Uchafswm o ddwy dudalen neu sleid ddylai fod mewn dogfen, a ddylai dogfen ddim bod yn fwy na 5MB. Rydyn ni'n derbyn y fformatau canlynol – .pdf/ .doc/ .docx/ .ppt/ .pptx/ .xls/ .xlsx

- **Ddylai ffeiliau delwedd ddim bod yn fwy na 5MB**
  Rydyn ni'n derbyn y fformatau canlynol – .jpeg/ .jpg / .png/ .gif

- **Ddylai ffeiliau fideo ddim bod yn fwy na 10MB**
  Rydyn ni'n derbyn y fformatau canlynol – .mp4/ .mov/ .avi
  Os oes angen i chi leihau neu gywasgu eich ffeiliau fideo gallwch ddefnyddio offer fel handbrake.

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

- **Ddylai ffeiliau sain ddim bod yn fwy na 10MB**
  Rydyn ni'n derbyn y fformatau canlynol – .mp3/ .wav/ .aac

Sylwch mai dim ond gwerth deg munud o ffeiliau sain a fideo y gallwn ni eu hystyried fesul cais. Os yw'r ffeil rydych chi'n ei rhannu yn hirach na hynny, nodwch y codau amser ar gyfer y deg munud yr hoffech i ni ei ystyried.

## CYMORTH HYGYRCHEDD

### Beth sydd ar gael?

Gallwch wneud cais i raglen Celfyddydau Ymdrochol drwy sain, fideo neu destun, a gwneud eich cais yn Gymraeg, yn Saesneg neu yn Iaith Arwyddion Prydain gan ddefnyddio ein porth ymgeisio.

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

Mae’r canllawiau ymgeisio ar gael yn y fformatau a’r ieithoedd canlynol:

- print bras
- hawdd ei ddarllen
- sain
- Iaith Arwyddion Prydain
- Cymraeg.

Os yw'n well gennych baratoi eich atebion oddi ar lein, gallwch lawrlwytho rhagolygon o'r ffurflenni cais.

## Sut i ofyn am gymorth hygyrchedd

Mewn rhai achosion, gallwn eich helpu gyda'ch cais drwy’ch cefnogi gyda chostau hygyrchedd, fel gweithwyr cymorth neu ddehonglwyr.

I ofyn am gymorth hygyrchedd gyda’ch cais, llenwch y ffurflen yma.

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

Y dyddiad cau i wneud cais am gymorth hygyrchedd yw **17:00 BST, dydd Llun 1 Medi 2025**. Mae hyn bedair wythnos cyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau, sy'n rhoi ychydig o amser i ni wneud yn siŵr eich bod chi'n cael y cymorth sydd ei angen arnoch chi.

Mae rhagor o wybodaeth am gymorth hygyrchedd a sut i gysylltu â ni ar gael ar ein tudalen cymorth hygyrchedd.

## BETH SY'N GYMWYS, FFURFIAU AR GELFYDDYD A THECHNOLEGAU

### Y meini prawf cymhwysedd

Rydych chi'n gymwys i wneud cais am grant Celfyddydau Ymdrochol:

- os ydych chi'n artist unigol, yn ymarferydd creadigol neu'n dechnolegydd creadigol

- os ydych chi'n sefydliad celfyddydol, yn gasgleb neu'n grŵp bach (deg o bobl neu lai ar gyfer Archwilio ac Arbrofi, hyd at 50 o bobl ar gyfer Estyn)
- os yw eich cais yn cael ei arwain gan artist a/neu'n canolbwyntio ar y celfyddydau
- os ydych chi'n byw yng ngwledydd Prydain
- os ydych chi'n 18 oed neu'n hŷn
- os oes gennych gyfrif banc yng ngwledydd Prydain yn eich enw eich hunan

Gweler hefyd y meini prawf ar gyfer pob ffrwd ariannu ar dudalennau 4-7.

### Beth sy'n cyfrif fel 'celfyddyd ymdrochol'?

Rydyn ni'n gwybod bod gan y term 'celfyddyd ymdrochol' lawer o ystyron i wahanol bobl ac ar draws llawer o sectorau. Ar gyfer y rhaglen yma,

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

rydyn ni'n golygu **celf sy'n defnyddio technoleg er mwyn mynd ati i gynnwys y gynulleidfa**.

Mae ganddon ni ddiddordeb yn y defnydd o realiti rhithwir, ymestynnol ac estynedig wrth greu gwaith celf sy'n pontio gofodau ffisegol a digidol, yn anelu at sawl synnwyr, ac yn cysylltu pobl â'i gilydd a/neu â'u hamgylchedd.

**Rhaid i gynigion fodloni'r diffiniad uchod o 'gelfyddyd ymdrochol' i fod yn gymwys i gael cyllid.**

Isod mae enghreifftiau o dechnolegau ymdrochol sy'n bodloni ein diffiniad. Gallwch ddarllen mwy amdanyn nhw yn ein geirfa.

- Realiti Estynedig (AR)
- Sain deuglust
- Realiti Ymestynnol (XR)

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

- Adborth cyffyrddiadol a synhwyraidd
- Realiti Cymysg (MR)
- Amgylcheddau ymatebol
- Sain ofodol
- Cyfrifiadura gofodol
- Realiti Rhithwir (VR)
- Fideo 360 gradd

Mae pob ffurf ar gelfyddyd yn gymwys, dim ond i'r ymgeisydd allu dangos diddordeb go iawn mewn archwilio, arbrofi, neu estyn eu defnydd o dechnolegau ymdrochol yn eu hymarfer creadigol. Mae gennym ddiddordeb hefyd mewn cefnogi cynyrchiadau dwyieithog neu amlieithog.

**Beth sydd ddim yn bodloni ein diffiniad o 'gelfyddyd ymdrochol'?**

Rydyn ni'n croesawu ceisiadau sy'n dadlau'r achos dros ddefnyddio technolegau eraill sy'n

galluogi cynulleidfa i chwarae rhan weithredol yn y gwaith celf.

Fodd bynnag, wrth fyfyrio ar geisiadau yn ein galwad agored gyntaf, ymhlith y technolegau y canfuwyd yn aml eu bod y tu allan i gwmpas y rhaglen, roedd tafluniadau a mapio tafluniadau, sioeau golau, ffilmiau artistiaid, cyngherddau a pherfformiadau lle roedd cynigion yn cynnwys technoleg ond ddim mewn ffordd oedd yn mynd ati i gynnwys y gynulleidfa.

Fe gawson ni hefyd nifer o geisiadau oedd yn ymddangos yn addas ar gyfer ffynonellau eraill o gyllid cyhoeddus ond oedd ddim yn bodloni ein meini prawf ni. Er enghraifft, datblygu busnes; datblygu offer; technoleg ar gyfer marchnata; cyllid i redeg rhaglen arall oedd yn ariannu artistiaid; ac ymchwil academaidd.

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

Gallwch ddarllen mwy o fanylion yn Sylwadau Rownd Ariannu Gyntaf ar ein gwefan.

**Ar gyfer beth y gellir defnyddio'r arian?**

Bydd angen i chi amlinellu cyllideb fel rhan o'ch cais. Darllenwch y trosolwg byr ar gyfer pob ffrwd i gael rhagor o wybodaeth am y meini prawf a'r ffocws:

- Archwilio
- Arbrofi
- Estyn

Ar gyfer rhaglen Celfyddydau Ymdrochol does dim gofyn i chi fod ag arian cyfatebol er mwyn gwneud cais.

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

## Costau sy'n gymwys

Bydd angen i chi amlinellu'ch cyllideb fel rhan o'ch cais. Gweler isod y mathau o bethau y gallwch ddefnyddio ein harian ar eu cyfer:

| | |
|---|---|
| **Datblygu prosiect** | Cynllunio, ymchwilio a datblygu, a rhoi prosiectau celfyddydau ymdrochol ar waith. |
| **Deunyddiau ac offer** | Prynu neu rentu deunyddiau, offer, trwyddedau meddalwedd ac offer technegol eraill. |
| **Ffioedd proffesiynol** | Talu am eich amser eich hunan ac unrhyw artistiaid, cydweithwyr, cymorth technegol a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'r prosiect (gweler y canllawiau am gyflog teg ar dudalen 19). |
| **Ffioedd hyfforddi** | Cymorth neu ddysgu ffurfiol neu anffurfiol sy'n gysylltiedig â'r prosiect. |

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

| | |
|---|---|
| **Teithio, llety a chynhaliaeth** | Ar gyfer cyweithiau, ymchwil, preswyliadau, mynychu digwyddiadau, gweithdai neu weithgarewch sy'n gysylltiedig â phrosiectau perthnasol. |
| **Marchnata/datblygu cynulleidfa** | Ar gyfer ffrydiau Arbrofi ac Estyn yn unig. |
| **Llogi safleoedd** | Stiwdios neu ofodau sydd eu hangen ar gyfer datblygu prosiect, ymarferion, digwyddiadau neu arddangosfeydd. |
| ***Hygyrchedd a chynhwysiant** | Costau sy'n cefnogi cyfranogiad ac ymgysylltiad â chynulleidfa mewn ffordd hygyrch, amrywiol a chynhwysol (e.e. dehonglwyr iaith arwyddion, capsiynau, creu fformatau hygyrch, ac ati). |

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

***Does dim angen cynnwys costau hygyrchedd ar gyfer artistiaid/timau o artistiaid ar y cam yma.** Byddwn yn gofyn i bob ymgeisydd llwyddiannus am fanylion unrhyw ofynion hygyrchedd sydd eu hangen er mwyn cymryd rhan yn y rhaglen (h.y. gweithwyr cymorth, dehonglwyr a chostau teithio). Pan fo hynny'n berthnasol, gallwn ddarparu rhywfaint o gyllid ychwanegol i gyfrannu at y cymorth hygyrchedd. Mae rhagor o wybodaeth ar ein tudalen cymorth hygyrchedd.

## Costau sydd ddim yn gymwys

Er bod Celfyddydau Ymdrochol yn anelu i ddarparu cymorth cynhwysfawr ar gyfer datblygu ymarfer creadigol, mae peth gweithgarwch a chostau penodol nad ydyn nhw'n gymwys i gael cyllid.

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

Bydd deall y costau yma nad ydyn nhw'n gymwys yn helpu i sicrhau bod eich cais yn cyd-fynd â'r meini prawf a'r hyn sy'n gymwys i gael cyllid.

**Enghreifftiau o gostau sydd ddim yn gymwys:**

- gwariant cyfalaf
- gorbenion / costau rhedeg cyffredinol sydd ddim yn gysylltiedig â'r prosiect
- ad-dalu dyledion
- gweithgarwch sydd ddim yn artistig
- digwyddiadau codi arian
- offer sydd ddim yn uniongyrchol gysylltiedig â'r prosiect
- ffioedd dysgu ac addysg ffurfiol
- gweithgarwch academaidd (e.e. gwaith sy'n cael ei wneud fel rhan o gwrs prifysgol, neu addysgu neu ymchwil)
- costau sydd wedi'u talu eisoes gydag incwm neu gyllid arall
- alcohol

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

## Canllawiau ar gyflog teg

Mae sicrhau cyflog teg i bob unigolyn sy’n ymwneud â’ch prosiect yn egwyddor allweddol o raglen Celfyddydau Ymdrochol. Disgwyliwn felly i unrhyw ymgeisydd sy'n gwneud cais am gyllid i sicrhau eu bod yn eu talu eu hunain, ac yn talu eraill sy'n ymwneud â'u prosiect, yn deg.

Mae cyflog teg yn helpu i gynnal safonau’r diwydiant, yn cefnogi cynaliadwyedd yn y celfyddydau ac yn meithrin amgylchedd gwaith proffesiynol a pharchus.

Pan fo hynny'n berthnasol ac yn briodol, rydyn ni’n disgwyl i ymgeiswyr ddatgan tâl safonol priodol ar gyfer y diwydiant yn eu cyllidebau.

Fe allai’r adnoddau yma eich helpu i ymgorffori cyflog teg yn adran gyllideb eich cais am gyllid:

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

- Undeb Artistiaid Lloegr
- Undeb Artistiaid yr Alban
- Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon
- Cwmni Gwybodaeth Artistiaid a-n
- Ymgyrch Dim Byd am Ddim Byd Unlimited

**Canllawiau ar TAW**

Mae'r cyllid yma'n cynnwys unrhyw dreth ar werth (TAW) a allai fod yn berthnasol. Felly dylech gyllidebu ar gyfer unrhyw dreth ar werth berthnasol sy'n gysylltiedig â chynnig eich prosiect.

**Canllawiau ar ymchwil/gweithgarwch academaidd anghymwys**

Rydyn ni'n deall y gallai cyweithiau academaidd ac ymchwil fod yn rhan o'ch ymarfer creadigol. Gall artistiaid wneud cais gyda phrosiect sy'n cynnwys partner academaidd, ond ni all

sefydliadau academaidd fod yn brif ymgeisydd.

Gellir defnyddio'r cyllid i dalu am gostau cael mynediad at gyfleusterau'r brifysgol (e.e. benthyg offer, rhentu labordai neu ofodau profi, cymorth technegydd, ac ati). Ni ellir ei ddefnyddio i dalu am weithgarwch academaidd ffurfiol (e.e. gwaith a wneir fel rhan o gwrs prifysgol, neu addysgu neu ymchwil). Os yw ymchwilydd academaidd yn rhan o'ch prosiect, byddem yn disgwyl i'w costau, gan gynnwys eu hamser ac unrhyw Gostau Economaidd Llawn cysylltiedig, gael eu talu drwy ddulliau eraill.

Os nad ydych yn siŵr am gostau sydd ddim yn gymwys, cysylltwch â ni.

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

## Y BROSES DDETHOL

**Gwiriad cychwynnol i sicrhau ei fod yn gymwys**

- Bydd ceisiadau sy’n cael eu cyflwyno yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod wedi'u cwblhau'n gywir a'u bod yn bodloni'r meini prawf i fod yn gymwys (gweler tudalennau 4-9).

- Bydd ceisiadau sy’n bodloni'r meini prawf ariannu’n symud ymlaen i'r cam nesaf.

**Sgorio a gwerthuso yn ôl y meini prawf**

- Bydd ceisiadau cymwys yn cael eu hadolygu gan banel o arbenigwyr ym maes celfyddydau ymdrochol. Mae ein hadolygwyr yn dod o ystod eang o gefndiroedd, sy'n

adlewyrchu gwerthoedd y rhaglen o ran hygyrchedd, amrywiaeth a chynhwysiant.

- Bydd ceisiadau **Archwilio** sy'n bodloni'r meini prawf (gweler tudalen 4-9) yn cael eu hargymell ar gyfer cyllid. Os oes mwy o geisiadau cymwys nag sydd o arian ar gael, bydd rhestr hir o bob gwlad yn cael ei chreu gan ddefnyddio samplu ar hap. Bydd y dewis yna'n symud ymlaen i gam cydbwyso portffolios.

- Bydd ceisiadau Arbrofi ac Estyn yn cael eu hadolygu a'u sgorio yn erbyn eu meini prawf perthnasol (gweler tudalennau 4-9). Bydd y ceisiadau sy'n sgorio uchaf yn symud ymlaen i'r cam cyfweliad a/neu gydbwyso portffolios.

**Cyfweliad (Estyn yn unig)**

- Bydd yr ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer ar gyfer ffrwd Estyn yn cael gwybod hynny ddiwedd mis Tachwedd/ddechrau mis Rhagfyr 2025 ac yn cael eu gwahodd i gyfweliadau ym mis Rhagfyr 2025.

- Bydd gofyn i ymgeiswyr sydd wedi cyrraedd y rhestr fer baratoi cyflwyniad byr, ochr yn ochr â chyllideb ac amserlen fanwl.

**Cydbwyso portffolios**

- Bydd proses derfynol o guradu a chydbwyso'n cael ei chynnal gan bartneriaid cenedlaethol Celfyddydau Ymdrochol, gan sicrhau bod ystod o syniadau, ffurfiau ar gelfyddyd, lleoliad daearyddol a phrofiad byw yn cael eu cynrychioli yn y garfan.

- Bydd pob ymgeisydd yn cael gwybod ym mis Ionawr 2026 a oedd eu cais yn llwyddiannus ai peidio.

**Adborth ar geisiadau**

Fyddwn ni ddim yn gallu rhoi adborth unigol gan ein bod yn disgwyl nifer fawr o geisiadau. Ond rydyn ni wedi ymrwymo i rannu'r hyn sy'n cael ei ddysgu o'r rhaglen – byddwn yn ysgrifennu adroddiad byr yn myfyrio ar y rownd yma o geisiadau i rannu gwybodaeth am pam roedd rhai ceisiadau yn fwy llwyddiannus nag eraill.

Gallwch ddarllen yr adborth o'r rownd gyntaf yma.